

# WELSH SEAFOOD CAREERS

**WEDI'W GYFLOGI GAN GWMNI BWYD MÔR MENAI MAE GAN JOE GARIAD MAWR TUAG AT FWYD MÔR, AC AWCH I'W WARCHOD GAN SICRHAU EI FOD YN PARHAU YN GYNALADWY AM GENHEDLAETHAU I DDOD.**

Enwyd Joe yn 'Unigolyn Eithriadol y Flwyddyn yng Nghymru' gan Hyfforddiant Cambrian Training am "ei angerdd am fwyd môr a'i awydd i ddysgu". Mae Joe eisiau dysgu mwy am y diwydiant yn ei gyfanrwydd o ddatblygu ryseitiau i fioleg morol."



**JOE HEMBROUGH,  
28 MLWYDD OED GWERTHWR PYSGOD DAN  
HYFFORDDIANT GYDA *BWYD MÔR MENAI*.**

Dechreuais fel gwerthwr pysgod a chogydd gyda'r cwmni ddwy flynedd yn ôl, ac ers hynny rwyf wedi gallu tanio fy mrwdfrydedd i addysgu'r cyhoedd am y bwyd môr anhygoel sydd yma yng Nghymru.

Mae'r môr o amgylch Cymru yn darparu'r gorau o fwy môr, gan gynnwys pysgod a physgod cregyn ffres, a llawn blas, tra hefyd yn cael ei bysgota mewn ffordd gynladwy, ac mae'r ddwy elfen yma o bwys mawr i mi a'r bobl yr wyf yn gweithio a nhw.

Rwyf yn cwblhau prentisiaeth pysgod a physgod cregyn gyda Cambrian Training, er mwyn mestroli sgiliau a gwybodaeth o bob rhan o'r diwydiant.

Po fwyaf y byddaf yn ei ddysgu am fwyd môr, y mwyaf yr wyf am drosglwyddo'r wybodaeth hon i eraill.

Darganfyddwch fwy am wobwr Joe, Cwmni Bwyd Môr Menai, yn ogystal â Prentisiaethau Cambrian Training o fewn Bwyd Môr.

